Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Ffeithlen Gwlad: Bolivia

Bolivia, Anapqui, Quinoa

Daearyddiaeth: Mae Bolivia yn wlad ym mewndir De America. Mae'n rhannu ffiniau â Brazil yn y gogledd a'r dwyrain, â Pharaguay a'r Ariannin yn y de ac â Chile a Pheriw i'r gorllewin. Yn y gorllewin mae cadwyn o fynyddoedd o'r enw'r Andes sy'n cynnwys mynydd Nevado Samjama, mynydd uchaf y wlad. I'r dwyrain o Bolivia mae tiroedd fflat a Basn yr Amazon. Y man isaf yw Afon Paraguay. Yn y gogledd-ddwyrain mae Llyn Titicaca sy'n cael ei rannu â Pheriw. Hwn yw'r corff dŵr mordwyol uchaf yn y byd – 3,810 metr uwch ben lefel y môr. La Paz yw prif ddinas weinyddol Bolivia a Sucre yw'r brif ddinas gyfansoddiadol.

Gwers gyflym mewn Quechua:
sut i ddweud "'helo"
Dywedwch *"winchis"*
(wind-cheers)

Iaith

Mae gan Folivia dair iaith swyddogol, Quechua, Aymara a Sbaeneg.

Ystyr y Faner

Mae gan faner Bolivia dri lliw. Yn draddodiadol, melyn yw symbol haelioni, mae coch yn nodi gwydnwch, dewrder, nerth a gwroldeb ac mae gwyrdd yn cynrychioli gobaith, llawenydd a chariad. Mae arfbais Bolivia'n dangos mynydd a gwastadedd sy'n cynrychioli daearyddiaeth y wlad. Mae lama hefyd yn cael ei ddangos ac yn cynrychioli'r anifail cenedlaethol. Mae'r mwsgedau wedi'u croesi'n symbol o'r frwydr am annibyniaeth, yr eryr yn symbol o ryddid a brigau'r coed olewydd yn golygu heddwch

Wyddech chi?

Yn 2000, darganfuwyd teml hynafol yn nyfroedd Llyn Titicaca. Credir fod yr adfeilion yn dyddio'n ôl 1,000 i 1,500 o flynyddoedd ac yno cyn yr Inca.

Geirfa

Mordwyol – yn ddiogel i'w hwylio.
Altiplano – Sbaeneg am 'wastadedd uchel', mae hon yn un o'r ardaloedd mwyaf o'i bath ar y ddaear.
Tiwanaku – mae Tiwanaku yn safle archeolegol bwysig. Roedd pobl Tiwanaku'n hynafiaid yr Incas.

Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Ffeithlen Gwlad: Bolivia

Bolivia, Anapqui, Quinoa

Poblogaeth:
9.8 miliwn

Dwysedd Poblogaeth:
8.06 o bobl y cilometr sgwâr

Llythrennedd:
90.7%

Plant wedi'u cofrestru mewn Addysg Gynradd:
70%

Achosion HIV / AIDS yn y boblogaeth (15 - 49 mlwydd oed)
0.2%

Crefydd
Catholig **95%**
Protestannaidd **5%**

Hinsawdd

Mae tywydd Bolivia'n gallu amrywio'n ddramatig o un parth hinsawdd i'r llall. Mae'r haf yn parhau o fis Tachwedd i fis Mawrth. Yn nodweddiadol mae'r tywydd yn gynhesach ac yn wlypach yn ystod y misoedd hynny. Ebrill i Hydref yw misoedd y gaeaf ac fel arfer maen nhw'n oerach ac yn sychach. Gall y tywydd fod yn oer iawn yn yr ucheldiroedd ac mae'r tymheredd yn aml yn disgyn o dan y rhewbwynt yn y nos, yn enwedig ar yr Altiplano.

Canolbwynt ar Ardal: Yr Altiplano



Mae'r ffermwyr Anapqui Quinoa (yn cael ei ynganu 'cînwa') yn byw ar yr Altiplano, ucheldir yn ne Bolivia ym Mynyddoedd yr Andes. Mae'r hinsawdd yn arw ac mae llawer o deuluoedd wedi ymfudo gan ei bod yn anodd ennill incwm teilwng. Quinoa yw un o'r ychydig gnydau sy'n tyfu yn y rhanbarth hwn. Mae Fflatiau Halen Uyuni yn hanfodol i'r rhanbarth o ran twristiaeth ac i roi maetholion pwysig i'r tir. Mae'r fflatiau halen yn dir halen gwyntog, cras yn gorwedd ar yr Altiplano 3,656 metr uwchben lefel y môr.

Hanes

200 CC	1450	1525	1809
Datblygodd diwylliant Tiwanakan ar ben deheuol Llyn Titicaca	Yr Incas, yn siarad iaith Quechua yn concro gwareiddiadau'r Aymara	Y Sbaenwyr yn trechu'r Incas, gan deyrnasu ar Folivia am 300 mlynedd	Datgan annibyniaeth ond yn cael ei ddilyn gan 16 o flynyddoedd o frwydro

1825	1879 - 1883	1935	1985
O dan arweiniad Simon Bolivar, mae Bolivia'n dod yn annibynnol	Yn ystod Rhyfel y Môr Tawel, Bolivia'n colli tir ac adnoddau i Chile	Bolivia'n colli'r rhyfel rhanbarthol gyda Pharaguay ac o ganlyniad yn dod o dan lywodraeth filwrol	Bolivia'n dod yn weriniaeth ddemocrataidd ar ôl bron i 50 mlynedd o gythrwfl gwleidyddol

Ystadegau o www.worldbank.org